

# IS-GYNLLUN Y GYMRAEG A'I DIWYLLIANT

**2019-2023**

Mae'r is-gynllun hwn yn dwyn ynghyd amcanion pedair dogfen strategol, sef Safonau'r Iaith Gymraeg, y Cynllun Academaidd Cyfrwng Cymraeg, Cynllun Cyfannol Strategol y Gymraeg a'r Strategaeth Sgiliau Dwyieithog, er mwyn cyflwyno cynllun cyfansawdd a fydd yn galluogi'r Brifysgol i gyflawni ei chenhadaeth ddwyieithog.

## **GWELEDIGAETH**

Gall Prifysgol Aberystwyth ymfalchïo yn ei safle fel arloeswr ac fel sefydliad arweiniol mewn Addysg Uwch drwy gyfrwng y Gymraeg, ac wrth ddarparu'r profiad myfyriwr cyfrwng Cymraeg gorau. Ategir hyn gan ymrwymiad y Brifysgol i hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg ymhlith staff, myfyrwyr a'r gymuned ehangach.

## **PWRPAS AC AMCANION**

Pwrpas yr is-gynllun hwn yw amlygu'r prif weithgareddau sy'n gwneud Prifysgol Aberystwyth yn sefydliad dwyieithog uchelgeisiol sy'n galluogi ac yn hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg. Mae'r is-gynllun hwn yn cynnwys yr amcanion canlynol:

- Cyflawni ein dyletswydd i ddarparu gwasanaeth dwyieithog o'r radd flaenaf i'n myfyrwyr, staff a'r gymuned ac annog defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ynghyd â chyfleoedd i bawb ddysgu a gloywi'r Gymraeg;
- Hyrwyddo datblygiad y ddarpariaeth academaidd cyfrwng Cymraeg gan gynnwys y Gymraeg fel disgyblaeth, a darparu amgylchedd sy'n galluogi myfyrwyr i ddewis byw a gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg;
- Ailagor Neuadd Pantycelyn fel llety o'r radd flaenaf i fyfyrwyr sy'n siarad a sy'n dysgu'r Gymraeg;
- Gweithredu fel catalydd i ymwybyddiaeth, dealltwriaeth, gweithgareddau ac integreiddio diwylliannol mewn perthynas â Chymru a'r byd.

Ynghyd â'r is-gynllun hwn rydym wedi datblygu Cynllun mesuradwy sy'n dangos cysylltiadau clir rhwng ein gweithgareddau cyfrwng Cymraeg a blaenoriaethau strategol y Brifysgol.

## **EGWYDDORION**

Fel dogfen sy'n cyfrannu at y cynllun strategol, seilir yr is-gynllun hwn ar y egwyddorion allweddol canlynol:

- Bod y Brifysgol yn cefnogi'n weithredol Bolisi Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru a'i bod yn ymrwymedig i gynnal statws yr iaith Gymraeg yn unol â Mesur y Gymraeg Cymru (2011) a'r ymrwymadau sydd wedi'u gosod yn Safonau'r Iaith Gymraeg;
- Bod y Brifysgol yn ymrwymedig i ddarparu'r profiad myfyriwr cyfrwng Cymraeg gorau. Er mwyn cyflawni hyn byddwn yn darparu dysgu cyfrwng Cymraeg o'r radd flaenaf mewn rhychwant o bynciau, ac yn denu nifer cynyddol o fyfyrwyr i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg; yn darparu gwasanaethau academaidd a chefnogol cynhwysfawr a fydd yn hyrwyddo'r profiad myfyriwr cyfrwng Cymraeg; yn cynnal sefyllfa arweiniol Aberystwyth mewn ymchwil, ysgolheictod ac ymwneud â'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg;

- Bod graddedigion cyfrwng Cymraeg yn gwerthfawrogi eu sgiliau dwyieithog fel mantais i'w cyflogadwyedd ac wrth gyfrannu at ddatblygiad cymdeithasol, economaidd a diwylliannol Cymru;
- Bod y Brifysgol yn ymrwymedig i gefnogi gweithle dwyieithog drwy hybu a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle a bod cefnogaeth a hyfforddiant drwy'r Gymraeg ar gael i'n holl staff a'n myfyrwyr i ddysgu a gwella eu sgiliau iaith Gymraeg;
- Mae'r Brifysgol yn hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer cymuned gyfan y Brifysgol i ymwneud â'r iaith Gymraeg a'i diwylliant yn y Brifysgol a thu hwnt.

## **MESUR LLWYDDIANT**

- Rhychwant a dyfnder darpariaeth cyfrwng Cymraeg sy'n galluogi myfyrwyr i astudio cyfran sylweddol o'u cynlluniau gradd drwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob Cyfadran.
- Ysgoloriaethau a mentrau eraill i annog myfyrwyr i ymgymryd â'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.
- Targedau addas ar gyfer adrannau sy'n darparu drwy'r Gymraeg.
- Cyflawni ein hymrwymiaidau o ran Safonau'r Gymraeg, gan gynnwys 10 Hawl y Myfyrwyr (#MaeGenIHawl), a Pholisi Defnydd Mewnol o'r Gymraeg.
- Neuadd Pantycelyn yn ailagor erbyn mis Medi 2020 ac yn ganolfan gymdeithasol fywiog unwaith eto i fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg ac yn ddysgwyr.
- Staff yn cymryd mantais o'r cyfleoedd i ddysgu'r Gymraeg ac i loywi eu sgiliau iaith.
- Staff yn cymryd rhan mewn sesiynau ymwybyddiaeth iaith fel rhan o'u cynefino a'u datblygiad proffesiynol parhaus, ac yn ymgymryd â rhaglen o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn awyrgylch anffurfiol a chefnogol.
- Myfyrwyr a staff yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn y Brifysgol ac yn y gymuned.
- Staff yn cynhyrchu ymchwil sy'n cael effaith drwy gyfrwng y Gymraeg o fewn a thu hwnt i gyd-destun y FfRhY ac yn weithredol wrth ymgysylltu â'r cyhoedd gan wella dealltwriaeth pobl o'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig.

### **Camau Gweithredu ar gyfer Blwyddyn 1**

Sefydlu Grŵp Datblygu Cyfrwng Cymraeg newydd i arwain ar faterion academiaidd a Grŵp Gweithredol y Gymraeg newydd i arwain ar faterion cynllunio iaith ac adrodd.

Paratoi a chyhoeddi adroddiad monitro yn seiliedig ar y cyfnod cyntaf o gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg (1 Ebrill 2018 – 31 Gorffennaf 2018).

Parhau i gefnogi ymwneud myfyrwyr a'r gymuned/rhan-ddeiliaid ym mhrosiect Pantycelyn a chefnogi cynlluniau i farchnata'r neuadd breswyl.

Hyrwyddo ymwneud staff â dosbarthiadau Cymraeg, darpariaeth Cymraeg yn y Gweithle a chyfleoedd i ymgymryd â mathau eraill o hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cynnal trydydd digwyddiad Gwobrau Gŵyl Dewi Aber i gydnabod cyfraniad myfyrwyr a staff i hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg.